



Nodyn Cyfarwyddyd: Cadw Gweithleoedd Cymru'n Ddiogel

19.1.21

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ddydd Gwener, 15 Ionawr, bydd hi'n ofynnol yn gyfreithiol i bob busnes yng Nghymru sydd â 5 gweithiwr neu fwy gynnal asesiadau risg penodol covid-19. Bydd y cam newydd hwn yn ymwneud â safleoedd sydd ar agor i'r cyhoedd a gweithleoedd preifat.

Cyflwynwyd y gofyniad cyfreithiol newydd i sicrhau bod gweithleoedd a siopau yn amgylcheddau mwy diogel i staff a chwsmeriaid fel ei gilydd. Bydd yn rhaid i'r asesiadau risg ystyried materion allweddol fel p'un ai a yw'r awyru yn ddigonol, hylendid, sicrhau bod pobl yn cadw pellter corfforol a'r defnydd ar gyfarpar diogelu personol a gorchuddion wyneb. Gallwch ddarllen cyhoeddiad llawn y prif Weinidog yma: [Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddeddfwriaeth i sicrhau bod gweithleoedd a siopau'n fwy diogel | LLYW.CYMRU](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [Pum Cam er mwyn Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith \(llyw.cymru\)](#) ac mae'n cynnwys y pum prif gyfrifoldeb ar gyflogwyr:

- Cynnal asesiad risg Covid-19.
- Helpu staff i weithio o gartref pryd bynnag y bo modd.
- Rhoi camau eraill ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws.
- Mynd ati i Brofi, Orlhain a Diogelu yn y gweithle.

Mae manylion a chanllawiau llawn i'w gweld yma: [Diogelu Cymru yn y gwaith \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Y prif effaith ar fusnesau yn sgil y cyhoeddiad yw'r rheidrwydd ar i bob cyflogwr yng Nghymru sydd â 5 gweithiwr neu fwy gynnal asesiad risg covid-19 newydd. Bydd rhai busnesau eisoes wedi gwneud hyn ond bydd angen iddynt ei adnewyddu. Hefyd, bydd cyfrifoldeb cyfreithiol ar fusnesau i ailadrodd y dasg, fel yr amlinellodd y Prif Weinidog:

"Rhaid adolygu a diweddarau'r asesiadau risg yn rheolaidd, pan fydd amgylchiadau'n newid ac rwyf eisiau nodi'n glir yn y gyfraith bod hyn yn cynnwys pan fydd lefelau Rhybudd y coronafeirws yn newid yn Nghymru."

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wybodaeth ac adnoddau, gan gynnwys templedi ar yr hyn ddylai gael ei gynnwys mewn asesiad risg COVID-19 yn y gweithle: [Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(hse.gov.uk\)](#)

Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol
Positively enterprising



Mae ganddynt arweiniad cynhwysfawr ar [Gwneud eich gweithle'n ddiogel o ran COVID yn ystod pandemig y coronafeirws \(hse.gov.uk\)](#) a'r pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesiad risg Covid-19.

Nodwch fod asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer menywod beichiog, felly hyd yn oed os oes gennych lai na 5 gweithiwr, sef y trothwy, os bydd un o'ch gweithwyr yn feichiog, mae'n rhaid yn gyfreithiol i chi gynnal asesiad risg.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio arwyddion rhad ac am ddim sy'n gallu cael eu hargraffu, i weithleoedd a chyflogwyr eu defnyddio, fel cadw pellter corfforol a defnyddio mygydau: [Arwyddion diogelwch a chadw pellter corfforol i gyflogwyr: coronafeirws | LLYW.CYMRU](#)

Argymhellwn fod busnesau'n cadw i fyny â'r canllawiau a'r cyhoeddiadau newydd.

Llywodraeth Cymru: [Coronafeirws \(COVID-19\) | Pwnc | LLYW.CYMRU](#)

Canolfan Cydweithredol Cymru: [Hwb Covid-19 | Canolfan Cydweithredol Cymru \(cymru.coop\)](#)

Busnes Cymdeithasol Cymru: [Covid-19: Cymorth i'ch busnes cymdeithasol | Busnes Cymdeithasol Cymru \(gov.wales\)](#)

Busnes Cymru: [COVID-19 Cymorth i Fusnes | Busnes Cymru \(gov.wales\)](#)

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: [HSE: Gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn y gwaith](#)

I gael rhagor o gymorth ac i siarad ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu anfonwch e-bost at sbwenquiries@wales.coop, a gallwn drefnu'ch ffonio chi'n ôl.